OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

## RHAN 13

Hysbysiadau a Phenderfyniadau

### Cyflwyno hysbysiadau

**65.**—(1) Caniateir i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Asiantaeth, milfeddyg swyddogol, archwilydd pysgod swyddogol neu swyddog gorfodi gael ei gyflwyno i berson drwy—

(a) ei ddanfon at y person hwnnw;

(b) ei adael ym mhriod gyfeiriad y person hwnnw; neu

(c) ei bostio i briod gyfeiriad y person hwnnw.

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforaethol ac eithrio partneriaeth gael ei gyflwyno'n briodol i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw neu i un o swyddogion tebyg eraill y corff.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i bartneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) gael ei gyflwyno'n briodol i bartner neu berson sy'n rheoli'r busnes partneriaeth neu sy'n rheolwr arno.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), at ddibenion y rheoliad hwn, cyfeiriad hysbys diwethaf y person fydd priod gyfeiriad unrhyw berson y mae hysbysiad i'w gyflwyno iddo, ac eithrio'r ffaith mai'r canlynol fydd y priod gyfeirad—

(a) yn achos corff corfforaethol neu ei ysgrifennydd neu ei glerc, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa y corff corfforaethol;

(b) yn achos cymdeithas anghorfforaethol (ac eithrio partneriaeth) neu ei hysgrifennydd neu ei chlerc, cyfeiriad prif swyddfa'r gymdeithas; ac

(c) yn achos partneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) neu berson sy'n rheoli'r busnes partneriaeth neu sy'n rheolwr arno, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) Pan fo'r person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo yn gwmni sydd wedi'i gofrestru, neu'n bartneriaeth sy'n cynnal busnes, y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a bod gan y cwmni neu'r bartneriaeth swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig, ei brif swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig fydd prif swyddfa'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno at ddibenion paragraff 4.

(6) Os yw'r person y mae unrhyw hysbysiad o'r fath i'w gyflwyno iddo wedi rhoi i'r person sydd i gyflwyno'r hysbysiad gyfeiriad yn unol ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, ymdrinnir â'r cyfeiriad hwnnw fel priod gyfeiriad y person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “postio” hysbysiad yw ei anfon drwy ddull rhagdaledig drwy wasanaeth post sy'n ceisio danfon dogfennau drwy'r post o fewn y Deyrnas Unedig heb fod yn

ddiweddarach na'r diwrnod gwaith nesaf ym mhob achos neu ran amlaf, a danfon dogfennau drwy'r post y tu allan i'r Deyrnas Unedig o fewn y cyfnod sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

### Hysbysu o benderfyniadau

**66.** Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud, o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â chynnyrch neu lwyth, rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad, os gofynnir iddo wneud hynny, hysbysu'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch neu'r llwyth o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn ysgrifenedig, ynghyd â rhoi manylion ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser sy'n gymwys.